# SL(5)615 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) (Rhondda Cynon Taf) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 45C(1) ac adran (3)(c), adran 45F(2) ac adran 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984").

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r Prif Reoliadau i ddynodi Rhondda Cynon Taf yn ardal diogelu iechyd leol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol, sef:

- ni all unrhyw aelwyd ym mwrdeistref Rhondda Cynon Taf fod yn rhan o aelwyd estynedig na ffurfio aelwyd estynedig;
- ni all unrhyw un sy'n byw ym mwrdeistref Rhondda Cynon Taf adael yr ardal heb esgus rhesymol (fel y nodir ym mharagraff 3(2) o Atodlen 4A i'r Prif Reoliadau);
- ni chaiff unrhyw un fynd i mewn i fwrdeistref Rhondda Cynon Taf nac aros yno heb esgus rhesymol (fel y nodir ym mharagraff 4(2) o Atodlen 4A i'r Prif Reoliadau);
- ni chaiff unrhyw un o'r trigolion adael eu hardal i fynd i'r gwaith neu i ddarparu gwasanaethau elusennol neu wirfoddol, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt weithio neu ddarparu gwasanaethau elusennol neu wirfoddol o'u cartref; a
- rhaid i bob mangre sydd wedi'i thrwyddedu i werthu alcohol beidio ag agor cyn 6am bob dydd a rhaid iddi gau am 11pm neu'n gynt bob dydd[1].

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân newidiadau i'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r esgus rhesymol i ymgynnull o dan do ac i fynd i ardal diogelu iechyd leol neu ei gadael. Bwriad y diwygiadau hyn yw egluro bod rhoi gwaed a thriniaethau tebyg yn dod o fewn yr esgus rhesymol sy'n bodoli i gael neu ddarparu cymorth meddygol, sydd ynddo'i hun yn cynnwys cael gafael ar wasanaethau iechyd.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol".

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau

[1] Cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 22 Medi 2020 y bydd hyn yn cael ei newid i 10.00pm o 23 Medi 2020.

pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn tynhau'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â Covid-19 yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. O'r herwydd, mae'r Rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau dynol amrywiol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 / y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r crynodeb yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch pa hawliau sy'n cael eu cyffwrdd a pham y gellir cyfiawnhau cyffwrdd hawliau o'r fath sef er mwyn dilyn y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o Covid-19 a'i ledaeniad ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn nodi'r canlynol o'r Memorandwm Esboniadol:

> *"Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo).   Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw.  Mae'r gofynion i beidio â gadael yr ardal neu fynd iddi yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy'n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy'n agored i niwed.*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Prif Reoliadau yn darparu ar gyfer adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau ar Fwrdeistref Rhondda Cynon Taf erbyn 24 Medi 2020 a bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol mae hyn am y rhesymau a ganlyn:

- mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Prif Reoliadau;
- rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wybod i Aelodau'r Senedd, mewn datganiad i'r Senedd ar 16 Medi 2020, o'r bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion ar Fwrdeistref Rhondda Cynon Taf; ac
- mae'r newidiadau i'r Prif Reoliadau wedi cael cyhoeddusrwydd eang gan y cyfryngau.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Medi 2020**